

Cyllideb Trafnidiaeth Bersonol

Mae Cyllideb Trafnidiaeth Bersonol (CTB) yn ddewisiad posibl arall yn lle darparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Tâl ydyw i rieni neu warcheidwaid plant sy'n gymwys i gael trafndiaeth i'r ysgol, ac sy'n caniatáu i deuluoedd, neu grapiau o deuluoedd, wneud trefniadau trafndiaeth priodol a dibynadwy sy'n cydweddu â'u hamgylchiadau, ac yn sicrhau fod y plentyn yn yr ysgol yn brydlon, yn ddiogel, ac yn barod i ddysgu Caiff Cyllidebau Trafnidiaeth eu caniatáu yn ôl disgrisiwn y Cyngor lle maent yn cynnig gwerth am arian. Cânt eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf er mwyn gwerthuso a fônt yn dal yn gost-effeithiol.

Mae'r rolau a chyfrifoldebau yn dod o dan gytundeb cyfreithiol a lofnodwyd. Cyfrifoldeb cyfreithiol y rhiant neu'r gwarcheddiwad yw sicrhau mynychiad rheolaidd eu plentyn yn yr ysgol, a bod unrhyw drefniadau teithio a wnaed yn cael eu trethu a'u hyswrio yn briodol. Mae'r Cyngor yn dymuno gweld Cyllidebau Trafnidiaeth Bersonol yn gweithio i deuluoedd. Os oes anawsterau nad oes modd eu datrys yn foddhaol, mae mis o rybudd yn ofynnol er mwyn galluogi gwneud trefniadau amgen.

Ar beth a geir gwario'r Gyllideb Trafnidiaeth Bersonol?

Dyma rai syniadau:

- Prynu cerdyn teithio i chi'ch hun neu i oedolyn dibynadwy i deithio gyda'ch plentyn ar drafndiaeth gyhoeddus.
- Talu am hebryngwr sydd ag gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'ch plentyn er mwyn i'ch plentyn gerdded i'r ysgol, neu deithio ar drafndiaeth gyhoeddus, neu drefnu i wneud hynny eich hun.
- Cwmpasu talu am gost gyrru neu feicio gyda'ch plentyn i'r ysgol, gan gynnwys efallai brydlesu car os nad oes un gyda chi.
- Trefnu rhannu trefniadau teithio gyda rhieni neu warcheidwaid eraill, fel er enghraifft rannu cyfrifoldebau gyrru, bysiau cerdded, neu archebu tacsï ar y cyd.
- Trefnu i aelod o'r teulu, ffrind, neu rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo neu ynddi fynd â'ch plentyn i'r ysgol.
- Talu i warchodwr plant sydd â gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd manwl i fynd â'ch plentyn i'r ysgol.
- Trechu rhwystrau a allai eich atal o bosibl rhag teithio gyda'ch plentyn i'r ysgol, er enghraifft, trefniadau teithio neu ofal plant i sibliangiaid.

Sut y caiff y Gyllideb Trafnidiaeth Bersonol ei thalu?

Caiff Cyllidebau Trafnidiaeth Personol eu cyfrifo ar sail y pellter rhwng y cartref a'r ysgol i'r diwrnodau y mae'ch plentyn yn mynychu'r ysgol, ac yn rhoi sylw i drefniadau teithio cyfredol eich plentyn. Mae wedi'i seilio ar y dyb fod 190 o ddiwrnodau ysgol mewn blwyddyn academaidd. Caiff lleihad ei wneud am absenoldeb o'r ysgol. Rhaid i fynychiad fodloni lefel mynychiad gyfartalog i'r ysgol Gwneir taliadau ymlaen llaw bob tymor i'ch cyfrif banc. Os yw eich amgylchiadau yn newid, er enghraifft, os bydd eich teulu yn symud tŷ, neu fod lleoliad ysgol eich plentyn yn newid, mae'n bosibl efallai y bydd angen ail-gyfrifo'r Gyllideb Trafnidiaeth Bersonol. Bydd y Cyngor yn adennill unrhyw taliadau a wnaethpwyd drwy gamgymeriad os na chaiff ei hysbysu o'r cyfryw newidiadau. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gofalu fod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu gwario ar y gwasanaethau arfaethedig. Rhaid cadw derbynebau ac anfonebau, a'u hildio i ddibenion monitro pan ofynnir am hynny.

A fydd hi yn effeithio ar fudd-daliadau eraill?

Ni fydd yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill, ond eich cyfrifoldeb chi yw gwirio taw felly y mae hi yn eich amgylchiadau personol chi. Nid yw'r taliadau yn cael eu trethu, gan eu bod yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r plentyn ac nid y rhieni neu warcheidwaid.